

<b>Adroddiad ar gyfer</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>14 Gorffennaf 2022</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	<b>Y Cynghorwyr Elen Heaton a Gill German / Nicola Stubbins</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Ann Lloyd / Rhian Morrille</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru – Adroddiad Drafft 2022</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. I roi trosolwg o'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru 2022 (ASF) (gweler Atodiad 1), sydd wedi cael ei lunio fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 1.2. Mae'n rhaid llunio un ASF drafft rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan Gyngor Llawn pob un o'r 6 ardal Awdurdod Lleol (ALI) a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI). Bydd fersiwn terfynol yr ASF yn mynd gerbron y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1. Er mwyn ceisio sylwadau'r Pwyllgor Craffu a'i gefnogaeth ar gyfer cymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod Craffu'n argymhell cymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru 2022.
- 3.2. Bod Craffu'n cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Cod Ymarfer yr ASF yn gofyn bod ALI a BILI yn gweithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi ASF yn seiliedig ar ddata ar gyfer pob ardal ALI yn ogystal â fersiwn cydgasgledig am ôl troed BPRh.
- 4.2. Bydd yr ASF yn darparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn rhanbarthol ac yn lleol parthed comisiynu gofal a chefnogaeth, gan fwydo i'r cynllun strategol ar gyfer ardal y BPRh a bod o gymorth wrth lunio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.
- 4.3. Wrth baratoi'r ASF, mae'n rhaid i ALI wneud asesiad o'r canlynol:
  - a) Digonolrwydd gofal a chefnogaeth wrth ddiwallu'r anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol fel y nodwyd yn Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB), a
  - b) Sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau wedi eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chefnogaeth.
- 4.4. Mae asesiad yr ASF yn canolbwyntio ar wasanaethau wedi eu rheoleiddio, sef:
  - gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
  - gwasanaethau llety diogel (i blant)
  - gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
  - gwasanaethau mabwysiadu
  - gwasanaethau maethu
  - gwasanaethau lleoli oedolion ('rhannu bywydau')
  - gwasanaethau eirioli
  - gwasanaethau cymorth cartref
- 4.5. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi themâu eraill sy'n rhaid eu hystyried yn yr ASF, gan gynnwys:
  - a) Gwerth Cymdeithasol
  - b) Y Gymraeg
  - c) Gweithlu
  - d) Taliadau Uniongyrchol a darpariaeth wedi ei hunanariannu

- 4.6 Mae cysylltiad cryf rhwng yr ASF a'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (AAB) 2022 a luniwyd yn ddiweddar ac sy'n nodi'r angen a'r galw cyfredol a'r angen a'r galw a ragwelir am ofal a chefnogaeth, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen i fodloni'r galw hwnnw. Bydd yr ASF yn asesu digonolrwydd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir wrth ddiwallu'r anghenion a'r galw a gadarnhawyd drwy'r AAB.
- 4.7 Mae'r AAB a'r ASF yn ddogfennau byw, a fydd angen eu cadw'n gyfredol, a chaent eu defnyddio i gynllunio cynllun cyflawni a chynlluniau datblygu gwasanaeth, yn lleol ac yn rhanbarthol, yn y dyfodol.
- 4.8 Dylid nodi mai ychydig iawn o ddata cenedlaethol ar y farchnad ofal oedd ar gael, ac o'r herwydd yr ydym wedi dibynnu'n fawr ar wybodaeth gomisiynu leol a rhanbarthol.
- 4.9 Y mae'r ASF yn ddogfen sydd wedi ei llunio ar y cyd ac wedi ei harwain gan ymgysylltu, sy'n golygu bod gennym ddogfen ASF ystyrlon a llawn gwybodaeth gan amrywiaeth eang o bobl, yn hytrach na dogfen wedi ei chreu'n ynysig drwy gyfrwng ymarfer wrth ddesg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan rai rhanbarthau eraill yng Nghymru.
- 4.10 **Negeseuon Lleol Allweddol o Ddadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth –**
- Y mae ychydig o ostyngiad wedi bod yng nghapasiti cyffredinol y sector cartrefi gofal yn Sir Ddinbych yn y blynyddoedd diweddar. Y mae llai o alw am ofal preswyl heb gefnogaeth ychwanegol ar gyfer anghenion iechyd meddwl neu anghenion corfforol cymhleth.
  - Mae'r nifer o bobl gydag anableddau dysgu sydd angen cymorth yn cynyddu ac mae pobl gydag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau demograffig hyn yn debygol o barhau.
  - Y mae'r rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd eisiau / yn disgwyl bod â lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned.
  - Yn gyffredinol, darperir cefnogaeth gan aelodau agos o'r teulu a / neu staff gofal hirdymor sy'n cael eu talu. Gwneir llai o ddefnydd o asedau anffurfiol yn y gymuned.

- Mae yna sail ddarparwyr amrywiol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, nifer cyfyngedig o leoliadau preswyl a nyrsio iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn sydd ar gael.
- Ar gyfer gofalwyr, cefnogaeth seibiant mwy arbenigol (yn benodol ar gyflwr) i adlewyrchu'r ystod o wahanol anghenion; er enghraifft, lleoedd sy'n addas ar gyfer pobl sydd wedi cael niwed i'r ymennydd, strôc, dementia a chyflyrau niwrolegol eraill (mewn argyfwng ac a ellir ei drefnu ymlaen llaw hefyd).
- Mae Sir Ddinbych yn cydnabod y materion canlynol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y Gwasanaeth Maethu: Mae'r pandemig wedi effeithio ar y broses o recriwtio gofalwyr maeth mewnol – mae prinder ymgeiswyr. Canlyniad hyn yw mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maethu Annibynnol. Mae prinder argaeledd wedi bod yn gyfrifol am ddim cynnig na lleoliadau am bellter sylweddol; nid yw hyn bob amser er budd pennaf y person ifanc.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Y mae asesiad yr ASF o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau wedi eu rheoleiddio yn ychwanegu at yr asesiad o anghenion y boblogaeth o ran gofal a chefnogaeth sydd yn yr AAB. Mae dogfennau'r AAB a'r ASF yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio strategol ar lefel rhanbarthol a lleol, ac felly bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr ALI sydd yn gysylltiedig ag angen iechyd a gofal cymdeithasol y trigolion.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Bu yna gost i'r awdurdodau lleol, BILI ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu i gefnogi'r dadansoddiad ac ysgrifennu'r adroddiad.
- 6.2. Wrth symud ymlaen, bydd yr ASF yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, a fydd angen rhyw lefel o fuddsoddiad efallai, naill ai ar lefel ranbarthol neu ar lefel lleol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lunio Aseiad o Les fel gofyniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd aseiad o'r boblogaeth yn ystyried anghenion cefnogaeth gofal y boblogaeth, tra bod yr Aseiad Lles yn ymdrin â ffyniant, iechyd, cydnerthedd, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang a chymunedau cydlynus. Mae yna orgyffwrdd rhwng y ddau, felly mae'r tîm prosiect ar gyfer yr ASF yn trafod gyda swyddogion o'r BGC am gynnydd yr aseiad o anghenion ac aseuadau Lles ac yn rhannu gwybodaeth lle bo'n angenrheidiol. Fodd bynnag, mae copi o'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm yn Atodiad 2.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Yr oedd yr ymgysylltu ar gyfer yr ASF yn cynnwys: holiadur i sefydliadau yn gofyn am eu barn a thystiolaeth; ymgysylltu â darparwyr o wahanol sectorau, e.e. y Trydydd Sector; yn ogystal â gweithdai lleol gyda darparwyr. Mae hyn wedi darparu data ansoddol cyfoethog i'r ASF. Y mae canfyddiadau ychwanegol ar gael yn y gronfa ddata ymgysylltu cydweithio rhanbarthol, sydd yn brosiect parhaus i wella cydlyniad gweithgareddau ymgysylltu ledled y rhanbarth a galluogi gwell defnydd o'r canfyddiadau.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Fel y nodwyd yn adran 6, bu cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser ac adnoddau staff i gefnogi'r prosiect. Os oes angen rhagor o adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau na ellir eu cynnal o fewn cyllidebau gwasanaethau, yna mae'n bwysig bod hyn yn cael ei fwydo i mewn i broses y gyllideb flynyddol i'w ystyried ynghyd â'r holl bwysau eraill.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. Ni nodwyd bod unrhyw risgiau wrth lunio a chyhoeddi'r ASF.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

- 11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adrannau 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.